Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Chymru ar ôl Brexit

Briff Ymchwil

Mai 2020



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7350**
E-bost: **emily.williams@Senedd.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Chymru ar ôl Brexit

## Briff Ymchwil

Mai 2020

**Awduron:**
Emily Williams, Robert Byrne a Lorna Scurlock

O 6 Mai 2020, newidiodd enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru, a chyfeirir at y sefydliad yn gyffredin fel y Senedd. O ganlyniad, mae cyfeiriadau yn yr erthygl hon yn adlewyrchu'r newid enw, gan gyfeirio at y sefydliad fel y 'Cynulliad' mewn cyd-destun hanesyddol (cyn 6 Mai) a'r 'Senedd' wedi hynny.

Mae Ymchwil y Senedd yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Robert Byrne gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol (EPSRC), a alluogodd i'r Briff Ymchwil hwn gael ei gwblhau.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........................................................................ 1**

**2. Beth yw'r CFP? ................................................................... 2**

**3. Beth yw nod y CFP? ............................................................ 2**

**4. Sut datblygodd y CFP? ........................................................ 3**

4.1. Diwygio ......................................................................................... 3

**5. Beth yw'r diwygiadau CFP diweddaraf? ................................ 5**

**6. Beth yw trefniadau mynediad y CFP? ................................... 6**

6.1. Y Parth Economaidd Unigryw ......................................................... 6

6.2. Mynediad hanesyddol a Chonfensiwn Llundain ................................ 7

6.3. Trefniadau mynediad dwyochrog ac amlochrog ................................ 8

**7. Sut mae Bil 2019-21 yn bwriadu newid trefniadau mynediad? ......................................................................... 9**

**8. Pwy sydd â chyfrifoldeb am bysgodfeydd a stociau pysgod o dan y CFP? ..................................................................... 10**

8.1. Cymhwysedd unigryw'r Undeb Ewropeaidd ..................................... 10

8.2. Pwerau a chyfrifoldebau Aelod-wladwriaethau o dan y CFP ...... 10

8.3. Datganoli rheolaeth pysgodfeydd ................................................. 11

**9.Sut mae adnoddau a chyfleoedd pysgota yn cael eu rheoli? ......12**

9.1. Y Ddalfa Fwyaf a Ganiateir ......12

9.2. Sefydlogrwydd cymharol ......12

9.3. Dyrannu cwotâu domestig o dan Goncordat Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig ......13

9.4. Rhwymedigaeth lanio ......16

9.5. Uchafswm Cynnyrch Cynaliadwy ......17

**10.Pa gyllid sydd ar gael o dan y CFP? ......19**

10.1. Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop ......19

**11.A yw masnach yn dod o dan Fil 2019-21? ......20**

**12.Ffynonellau Allweddol ......21**

12.1. Llywodraeth Cymru ......21

12.2. Y Senedd ......21

12.3. Ymchwil y Senedd ......21

12.4. Llywodraeth y Deyrnas Unedig ......21

12.5. Y Comisiwn Ewropeaidd ......22

12.6. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin ......22

12.7. Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi ......22

12.8. Senedd y Deyrnas Unedig ......22

12.9. Ffynonellau eraill ......22

# 1. Cyflwyniad

Bydd y Deyrnas Unedig yn gadael y ***Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP)*** ar ddiwedd cyfnod pontio Brexit, ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r briff ymchwil hwn yn rhoi trosolwg o CFP yr Undeb Ewropeaidd fel y mae pethau ym mis Mai 2020. Mae'n amlinellu pwrpas, swyddogaethau a phrosesau arfaethedig y polisi, ac yn tynnu sylw at rai o'r newidiadau posibl sy'n codi i reoli pysgodfeydd Cymru o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Bydd rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer y CFP yn cael eu cadw yng **nghyfraith y Deyrnas Unedig** dan **Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.** Fodd bynnag, cyflwynwyd Offerynnau Statudol, fel **Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Dyframaethu (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd) 2019** i newid rhywfaint o **Reoliadau'r CFP** a gedwir. Yn ogystal, bydd **Bil Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig 2019-2021** ('Bil 2019-21'), os caiff ei basio, yn dirymu rhai Erthyglau o reoliadau'r CFP.

Cyhoeddir **bapur briffio ar Fil 2019-21** a **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** (PDF 125 KB) Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r papur briffio hwn, ac mae'n cynnwys gwybodaeth fanwl am y darpariaethau ym Mil 2019-21 a gwaith craffu'r Senedd ar y Memorandwm.

## 2. Beth yw'r CFP?

Mae'r **Polisi Pysgodfeydd Cyffredin** yn set o reolau gan yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer rheoli fflydoedd pysgota a stociau pysgod Ewrop. Mae hefyd yn ymdrin â rhai agweddau ar **ddyframaethu** a **chyfranogiad rhanddeiliaid.** Fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod pysgodfeydd yn gynaliadwy. Mae pob un o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yn dod o dan y CFP.

Mae'r CFP yn cynnwys pedwar prif faes polisi:

- **Rheoli pysgodfeydd** - sicrhau hyfywedd hirdymor stociau pysgod yn nyfroedd yr Undeb Ewropeaidd;
- **Polisi rhyngwladol** - gweithio gyda gwledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd a sefydliadau rhyngwladol i reoli pysgodfeydd a rennir, gan gynnwys Norwy, Gwlad yr Iâ a Moroco;
- **Polisi marchnad a masnach** - creu cystadleuaeth deg yn y farchnad a phennu safonau ar gynhyrchion bwyd môr a werthir yn yr Undeb Ewropeaidd i amddiffyn defnyddwyr; a
- **Cyllid** – cynorthwyo pysgotwyr i gyflawni pysgota cynaliadwy, cymunedau arfordirol i arallgyfeirio eu heconomïau, a phrosiectau sy'n creu swyddi newydd ac yn gwella ansawdd bywyd ar hyd arfordiroedd Ewrop.

## 3. Beth yw nod y CFP?

**Nod y CFP yw:**

> ... ensure that fishing and aquaculture are environmentally, economically and socially sustainable and that they provide a source of healthy food for EU citizens.

Noda'r Comisiwn Ewropeaidd mai **nod y CFP** yw:

> ... to foster a dynamic fishing industry and ensure a fair standard of living for fishing communities.

# 4. Sut datblygodd y CFP?

Mae gwreiddiau'r CFP i'w canfod yng **Nghytundeb Rhufain 1958**, a oedd yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud ag amaethyddiaeth a 'chynhyrchion amaethyddol', a ddiffinnir fel "the products of the soil, of stock farming and of fisheries and products of first-stage processing directly related to these products".

Roedd y CFP yn rhan o'r **Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yn wreiddiol**. Fodd bynnag, ym 1970, mabwysiadodd Cymuned Economaidd Ewrop ei **deddfwriaeth pysgodfeydd gyntaf**. Disgrifiwyd hyn fel a ganlyn mewn **adroddiad i Bwyllgor yr Undeb Ewropeaidd yn Nhŷ'r Arglwyddi**:

> … the Council of Ministers adopted legislation establishing a Common Organisation of the Market in fisheries products, and established the principle of "equal access" for EC vessels to Member State waters, with the exception of a narrow coastal band reserved to local fishermen with a tradition of fishing in that area.

Fodd bynnag, yn dilyn derbyn gwledydd â buddiannau mawr mewn pysgodfeydd (Denmarc, Iwerddon a'r Deyrnas Unedig) i'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd ym mis Ionawr 1973, ysgogwyd adolygiad o'r egwyddor o fynediad cyfartal ac estynnnwyd ardal hawliau pysgota cenedlaethol cyfyngedig i 6 milltir forol. Yn ogystal, rhoddwyd rheolau ar waith i ganiatáu i longau Aelod-wladwriaethau eraill bysgota yn y band 6 i 12 milltir lle'r oedd hyn yn adlewyrchu hawliau mynediad hanesyddol yn unig. Yn wreiddiol, rhoddwyd yr amodau hyn ar waith am ddeng mlynedd ond fe'u hadnewyddwyd ers hynny (ar hyn o bryd, byddant yn **dod i ben yn 2022)**.

Erbyn 1976, ysgogodd datblygiadau rhyngwladol Aelod-wladwriaethau i hawlio Parthau Economaidd Unigryw 200 milltir forol o'u harfordir. O ganlyniad, cymerodd y Gymuned Ewropeaidd gyfrifoldeb am ddatblygu polisi pysgodfeydd o fewn Parthau Economaidd Unigryw ei Aelod-wladwriaethau yn fuan wedi hynny. Arweiniodd hyn at gyflwyno'r **Rheoliad CFP cyntaf** ym 1983.

## 4.1. Diwygio

Digwyddodd y diwygiad mawr cyntaf i'r CFP ym 1992. Nod **Rheoliad y Cyngor 3760/92** a ddeilliodd o hynny oedd hyrwyddo cadwraeth stoc pysgod a chywiro anghydbwysedd rhwng capasiti a chyfleoedd pysgota. Fodd bynnag, yn 2002 **penderfynodd yr Undeb Ewropeaidd fod yn rhaid gwneud mwy** i fynd i'r afael â stociau afiach, gorgapasiti fflydoedd, natur fregus pysgodfeydd o safbwynt economaidd a gorfodaeth anwastad ledled yr Undeb Ewropeaidd. I unioni hyn,

bwriad **y trydydd Rheoliad CFP** oedd hyrwyddo rheolaeth tymor hwy a chynnal stociau. Gwnaed hyn drwy gyflwyno mesurau fel cynlluniau adfer a rheoli aml-flynyddol ar gyfer stociau penodol, Cynghorau Cynghori Rhanbarthol a threfniadau gorfodi newydd.

Parhaodd llywodraethau olynol y Deyrnas Unedig, grwpiau amgylcheddol, y diwydiant pysgota a Senedd Ewrop i alw am ddiwygiadau sylfaenol ychwanegol i'r CFP. Ym **mhapur gwyrdd diwygio** y Comisiwn Ewropeaidd yn 2009 nodwyd methiannau'r CFP, fel gorbysgota, gorgapasiti fflyd, cymorthdaliadau trwm a chydnerthedd economaidd isel.

Nodwyd yn y papur gwyrdd:

> While a few EU fleets are profitable with no public support, most of Europe's fishing fleets are either running losses or returning low profits. Overall poor performance is due to chronic overcapacity of which overfishing is both a cause and a consequence: fleets have the power to fish much more than can safely be removed without jeopardising the future productivity of stocks.

O ganlyniad, cynlluniwyd **diwygiadau diweddaraf 2013** (a weithredwyd yn 2014) i fynd i'r afael â'r materion hyn.

# 5. Beth yw'r diwygiadau CFP diweddaraf?

Roedd **diwygiadau diweddaraf y CFP** (a weithredwyd yn 2014) yn cynnwys:

- gofyniad i bennu terfynau dalfeydd i adfer a chynnal stociau pysgod yn raddol uwchlaw lefelau biomas sy'n gallu cynhyrchu'r Cynnyrch Uchaf Cynaliadwy erbyn 2020;
- cyflwyno **rhwymedigaeth lanio** (gwahardd gwaredu) yn raddol i gael gwared ar yr arfer o waredu pysgod diangen, a gwneud fflydoedd yn fwy dewisol yn eu dalfeydd;
- rhagor o ranbartholi, gyda'r Aelod-wladwriaethau yn cael rhagor o ryddid i ddatblygu a gweithredu mesurau i gyrraedd targedau a ddiffinnir gan ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd; ac
- egwyddorion cynaliadwyedd canolog ar gyfer gweithredu y tu allan i ddyfroedd yr Undeb Ewropeaidd (sydd yr un fath ag yn nyfroedd yr Undeb Ewropeaidd).


Ym mis Mehefin 2018, darparodd **gohebiaeth y Comisiwn Ewropeaidd â Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd** yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn dilyn y diwygiadau. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys cynnydd ym mherfformiad economaidd fflyd yr Undeb Ewropeaidd.

Esbonnir ym **Memorandwm Esboniadol (EM)** Bil 2019-21 bod y Bil hwnnw'n disodli'r amcanion (gan gynnwys y ddyletswydd Cynnyrch Uchaf ar gyfer Cynnyrch Cynaliadwy) sydd yn **Erthygl 2 o'r CFP** ar hyn o bryd, gyda set newydd o amcanion ar gyfer Gweinyddiaethau Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig (pedair gweinyddiaeth y Deyrnas Unedig) (er nad yw'r Bil, fel y'i drafftiwyd ar adeg ysgrifennu'r papur briffio hwn, yn dirymu Erthygl 2). Nid yw Bil 2019-21 yn dirymu'r rhwymedigaeth lanio yn rheoliadau'r CFP ychwaith, ond mae'n cynnwys "amcan sgil-ddalfa". Archwilir y newidiadau hyn mewn adrannau ychwanegol o'r papur briffio hwn ac, yn fwy manwl, ym mhapur briffio **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil 2019-21.**

# 6. Beth yw trefniadau mynediad y CFP?

## 6.1. Y Parth Economaidd Unigryw

Mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr (UNCLOS),** y mae'r Deyrnas Unedig yn un o'i lofnodwyr, yn rhoi hawliau dros foroedd tiriogaethol hyd at 12 milltir forol o'r lan i wladwriaethau arfordirol. Mae hefyd yn rhoi'r gallu i wladwriaethau arfordirol hawlio Parth Economaidd Unigryw sy'n ymestyn hyd at 200 milltir forol y tu hwnt ac yn gyfagos i'r môr tiriogaethol (neu linell ganolraddol gyfochrog rhwng Parthau Economaidd Unigryw gwahanol wledydd). Mae gan wladwriaethau arfordirol hawliau sofran ar gyfer archwilio, manteisio, gwarchod a rheoli adnoddau naturiol o fewn Parthau Economaidd Unigryw. Dangosir Parth Economaidd Unigryw y Deyrnas Unedig yn Ffigur 1.




Ffigur 1 - Parthau Economaidd Unigryw Gogledd Ddwyrain yr Iwerydd (Ffynhonnell: **Adroddiad Ymchwiliad Tŷ'r Arglwyddi, Brexit: Pysgodfeydd)**

Yn gyffredinol, mae Parthau Economaidd Unigryw yr holl Aelod-wladwriaethau yn cael eu hystyried yn un parth 'dyfroedd yr Undeb Ewropeaidd' ar y cyd o dan y CFP cyfredol. Mae mynediad cyfartal i holl gychod pysgota cofrestredig yr Undeb Ewropeaidd at y dyfroedd hyn (ac eithrio yn y parth 0-12 milltir forol, a hefyd ac eithrio achosion o 'hawliau hanesyddol').

## 6.2. Mynediad hanesyddol a Chonfensiwn Llundain

Mae gan lawer o Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd hawliau hanesyddol mewn ardaloedd o ddyfroedd ei gilydd. Mae ***Confensiwn Pysgodfeydd Llundain 1964*** (a lofnodwyd gan 13 gwlad) yn perthyn i gyfnod cyn y CFP ac aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n creu 'awdurdodaeth unigryw ym materion pysgodfeydd' o fewn terfynau pysgota 0-6 milltir forol. Mae hefyd yn darparu hawliau pysgota o fewn 6-12 milltir forol os oedd llongau gwlad fel arfer yn pysgota yn y llain honno rhwng 1 Ionawr 1953 a 31 Rhagfyr 1962. Ar gyfer dyfroedd y Deyrnas Unedig, mae gwledydd o'r fath yn **cynnwys** (PDF 1MB) Gwlad Belg, Ffrainc, yr Almaen, yr Iseldiroedd a Gweriniaeth Iwerddon. Yn yr un modd, mae gan longau'r Deyrnas Unedig rywfaint o fynediad at ddyfroedd gwledydd eraill hefyd.

Ym mis Gorffennaf 2017, fe wnaeth Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar y pryd, Michael Gove, **gyhoeddi y byddai'r Deyrnas Unedig yn ymadael** â Chonfensiwn Pysgodfeydd Llundain. Byddai hyn yn ddigwydd ar ôl cyfnod o ddwy flynedd neu ar ddiwrnod ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd (pa bynnag ddyddiad fyddai ddiweddaraf). Fodd bynnag, mae trefniadau ar gyfer hawliau pysgota yn yr ardal 6-12 milltir forol rhwng gwahanol wledydd hefyd wedi eu nodi yn y CFP. Mae Atodiad I o ***Reoliad (yr Undeb Ewropeaidd) rhif 1380/2013*** (PDF 1.5 MB) yn darparu rhestr o drefniadau mynediad ar gyfer dyfroedd arfordirol.

Gan hynny, er y daw cyfranogiad y Deyrnas Unedig yng Nghonfensiwn Pysgodfeydd Llundain i ben yn ffurfiol ar 31 Ionawr 2020, bydd yn parhau i gydymffurfio â'r trefniadau mynediad a nodir yn rheoliadau'r CFP tan ddiwedd cyfnod pontio Brexit ar 31 Rhagfyr 2020.

Mae gan rai llongau tramor fynediad at ranbarth 0-6 milltir forol Parth Economaidd Unigryw'r Deyrnas Unedig o dan drefniadau eraill hefyd. Er enghraifft, mae **mae Memorandwm Esboniadol Bil 2019-21 yn cyfeirio at drefniant penodol** (PDF 1MB) rhwng Gweriniaeth Iwerddon a Gogledd Iwerddon (**trefniant 'voisinage**'). Yn ogystal, mae trefniadau mynediad i'r ddwy ochr rhwng

Ffrainc a Jersey[1] dan **Gytundeb Bae Granville.** Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn egluro sut bydd y trefniadau hyn yn cael eu hystyried yn ystod trafodaethau mynediad.

## 6.3. Trefniadau mynediad dwyochrog ac amlochrog

Mae gan aelod-wladwriaethau fynediad hefyd at ddyfroedd sawl gwlad y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Sicrheir hyn drwy **gytundebau dwyochrog** wedi eu negodi gan y Comisiwn Ewropeaidd ar ran yr Undeb Ewropeaidd. Mae gan yr Undeb Ewropeaidd ddau fath o'r cytundebau hyn:

- Cytundebau partneriaeth pysgodfeydd cynaliadwy - mae'r Undeb Ewropeaidd yn rhoi cymorth ariannol a thechnegol yn gyfnewid am hawliau pysgota; a hefyd
- Cytundebau gogleddol - cyd-reoli stociau a rennir gyda Norwy, Gwlad yr Iâ ac Ynysoedd Ffaröe.

1. Mae cychod pysgota Prydain y cyfeirir atynt ym Mil 2019-21 yn cynnwys y rhai sydd wedi euu cofrestru o dan gyfraith Jersey, Guernsey neu Ynys Manaw.

# 7. Sut mae Bil 2019-21 yn bwriadu newid trefniadau mynediad?

Mewn perthynas â mynediad, esbonnir ym Memorandwm Esboniadol Bil 2019-21:

> … any access for EU and other foreign vessels to UK waters will be a matter for negotiation. The Bill revokes the EU legislation which currently provides for automatic rights for vessels registered in the EU to access UK waters. By revoking provisions in the Fishery Limits Act 1976, it removes the need to designate which countries' vessels are able to fish in UK waters and introduces a new requirement that foreign fishing in UK waters must be licensed by the MMO [Marine *Management* Organisation] or one of the Fisheries Administrations to fish in UK waters or be for a purpose recognised under international law (for example, freedom of navigation).

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer mynediad cyfartal i longau'r Deyrnas Unedig yn nyfroedd y Deyrnas Unedig drwy egluro bod trwyddedau a roddir gan un o'r awdurdodau trwyddedu mewn grym ledled dyfroedd y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae pwerau hefyd wedi eu cynnwys i wahanol weinyddiaethau'r Deyrnas Unedig gymhwyso amodau ar drwyddedau ar gyfer llongau sy'n pysgota yn eu dyfroedd. Mae hefyd yn gwahardd llongau tramor rhag pysgota yn nyfroedd y Deyrnas Unedig oni bai bod ganddynt drwydded a gyhoeddwyd gan awdurdod trwyddedu yn y Deyrnas Unedig.

Nid yw Bil 2019-2021 yn gwahaniaethu rhwng y llongau hynny sydd wedi eu cofrestru ym Mhrydain[2] sydd â pherchnogion o Brydain a'r rhai sydd â pherchnogion nad ydynt wedi eu lleoli ym Mhrydain. Fodd bynnag, mae cymal 1 o'r Bil yn cynnwys 'amcan budd cenedlaethol' sef sicrhau bod gweithgareddau cychod pysgota Prydain yn dod â buddion cymdeithasol neu economaidd i'r Deyrnas Unedig neu i ran o'r Deyrnas Unedig.

---

2. At y dibenion hyn, mae cychod pysgota Prydain y cyfeirir atynt yn y Bil yn cynnwys y rhai sydd wedi eu cofrestru o dan gyfraith Jersey, Guernsey neu Ynys Manaw. Mae llongau o Ogledd Iwerddon hefyd wedi eu cynnwys yn y diffiniad o gychod pysgota Prydain, yn rhinwedd system gofrestru'r Deyrnas Unedig o dan Ddeddf Llongau Masnachol 1995.

# 8. Pwy sydd â chyfrifoldeb am bysgodfeydd a stociau pysgod o dan y CFP?

Mae'r ***Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU)*** yn nodi pwerau pysgodfeydd yr Undeb Ewropeaidd ac yn sicrhau bod y farchnad fewnol yn ymestyn i bysgodfeydd a masnach mewn cynhyrchion pysgodfeydd. Rhaid i bolisi pysgodfeydd yr Undeb Ewropeaidd ystyried hefyd egwyddorion trosfwaol Cytuniadau'r Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy. Yn dilyn ***Cytundeb Lisbon*** (a ddaeth i rym yn 2009), daeth y rhan fwyaf o bwerau deddfwriaethol yr Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â physgodfeydd yn ddarostyngedig i'r **Weithdrefn Ddeddfwriaethol Arferol** - mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewrop gytuno ar ddeddfwriaeth.

## 8.1. Cymhwysedd unigryw'r Undeb Ewropeaidd

O dan y TFEU, mae gan yr Undeb Ewropeaidd gymhwysedd unigryw ar gyfer cadwraeth adnoddau biolegol morol o dan y CFP. Mae'r **TFEU** yn diffinio cymhwysedd unigryw fel a ganlyn (ychwanegwyd y pwyslais):

> When the Treaties confer on the Union exclusive competence in a specific area, only the Union may legislate and adopt legally binding acts, the Member States being able to do so themselves only if so empowered by the Union or for the implementation of Union acts.

Yn 2013, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig **adroddiad yn archwilio cydbwysedd cymwyseddau** rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ym maes pysgodfeydd. Dywedir yn yr adroddiad:

> The new CFP Regulation defines marine biological resources as 'available and accessible living marine aquatic species, including anadromous and catadromous species during their marine life' (Article 4(2)). The species this applies to include fish, including sharks, and creatures such as octopuses, crustaceans and molluscs. However, cetaceans, including dolphins and whales, are currently only covered by the CFP as by-catch. Otherwise, EU legislation on cetaceans has to date only relied on the EU's environmental powers.

Mae gan yr Undeb Ewropeaidd gymhwysedd unigryw hefyd i wneud cytundebau rhyngwladol gyda gwledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd (trydydd partïon) ar faterion pysgodfeydd a masnach ryngwladol mewn cynhyrchion pysgodfeydd (yn ddarostyngedig i reolau Sefydliad Masnach y Byd).

## 8.2. Pwerau a chyfrifoldebau Aelod-wladwriaethau o dan y CFP

Er bod gan yr Undeb Ewropeaidd gymhwysedd unigryw ar gyfer cadwraeth adnoddau biolegol morol o dan y CFP, esbonnir ym Memorandwm Esboniadol Bil 2019-21 bod y CFP yn darparu modd i Aelod-wladwriaethau reoli eu dyfroedd tiriogaethol (ar yr amod eu bod yn gwneud hynny'n gyson â rheolau CFP). Nodir hefyd:

> *In some areas, the CFP does allow Member States more autonomy. The CFP allows Member States to restrict access to their 0 to 12 nautical mile area to their own vessels and the vessels of other Member States which have historic fishing rights in that area and to supplement EU measures in their territorial waters, provided they are non-discriminatory and at least as stringent as measures under EU rules. Member States may also enact measures which apply to their own vessels fishing outside territorial waters, provided those measures are consistent with the objectives of the CFP, and are at least as stringent as measures under EU law. This allows the UK to apply technical measures to its own vessels, regardless of where they are fishing. In emergencies, Member States can also take temporary measures which apply to all vessels, not just their own, in waters within their jurisdiction. Such measures have a time limit of three months.*
>
> Member States have various other powers. These include: stipulating which vessels may have their nationality and thus fly their flag; licensing their own vessels; allocating quota amongst their own vessels; administering aspects of the EMFF; and carrying out various tasks in relation to the common organisation of the market in fisheries products. In addition Member States play a significant role in the enforcement of the CFP.

## 8.3. Datganoli rheolaeth pysgodfeydd

Mae pysgodfeydd yn gyffredinol yn fater datganoledig. Datganolwyd rheoli pysgodfeydd ym moroedd tiriogaethol Cymru (0-12 milltir forol) a pharth Cymru i Lywodraeth Cymru drwy ***Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*** (Deddf 2006) a ***Gorchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010).*** Mae adran 158 o Ddeddf 2006 yn diffinio "Parth Cymru" fel y môr sy'n ffinio gyda Chymru o fewn terfynau pysgodfeydd Prydain neu a bennir fel arall mewn gorchymyn a wneir o dan y Ddeddf honno.

Fodd bynnag, pan ysgrifennwyd y papur briffio hwn, nid oedd gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer pysgodfeydd ym mharth Cymru. Mae Bil 2019-21 (cymal 43) yn diwygio Deddf 2006 i ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w alluogi i lunio deddfwriaeth sylfaenol ar faterion yn ymwneud â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod yn ardal parth Cymru y tu hwnt i derfyn môr y môr tiriogaethol (y tu hwnt i 12 milltir forol o'r lan). Nid yw gwelliant i adlewyrchu newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru wedi cael ei gyflwyno ar adeg ysgrifennu'r papur briffio hwn.

# 9. Sut mae adnoddau a chyfleoedd pysgota yn cael eu rheoli?

## 9.1. Y Ddalfa Fwyaf a Ganiateir

Y **Ddalfa Fwyaf a Ganiateir**, neu gyfleoedd pysgota, yw terfynau dal a bennir ar gyfer y mwyafrif o stociau pysgod masnachol (o ran rhywogaethau nad oes cwota ar eu cyfer sy'n cael eu rheoleiddio gan Aelod-wladwriaethau, nid oes terfynau wedi eu pennu ar lefel yr Undeb Ewropeaidd, ac maent yn cynnwys y mwyafrif o rywogaethau pysgod cregyn masnachol sy'n ffurfio **cyfran sylweddol** o'r rhywogaethau sy'n cael eu dal gan bysgotwyr o Gymru). O dan y CFP, mae'n ofynnol pennu terfynau dal er mwyn adfer a chynnal stociau pysgod yn raddol uwchlaw lefelau biomas sy'n gallu cynhyrchu'r Cynnyrch Uchaf Cynaliadwy erbyn 2020.

Mae'r Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir fel arfer yn berthnasol i ardal benodol o fewn parth yr Undeb Ewropeaidd, ac fe'u pennir yn flynyddol, er bod rhai Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir ar gyfer rhywogaethau môr dwfn yn cael eu pennu bob dwy flynedd. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gwneud cynigion ar y Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir yn seiliedig ar **gyngor gwyddonol.** Yng nghyfarfodydd blynyddol **Cyngor Amaethyddiaeth a Physgodfeydd Cyngor y Gweinidogion (AGRIFISH)** mae aelod-wladwriaethau'n cytuno ar gyfran y stociau y gellir eu ceisio. Mae cyfarfodydd ar stociau Gogledd Ddwyrain yr Iwerydd a'r Môr Celtaidd yn aml yn cael eu cynnal ym mis Rhagfyr.

## 9.2. Sefydlogrwydd cymharol

Rhennir y Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir fel cwotâu rhwng gwledydd yr Undeb Ewropeaidd, yn seiliedig ar yr egwyddor o 'sefydlogrwydd cymharol'. Mae hon yn ffordd o ddyrannu canran y Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir pob stoc rhwng gwledydd, gyda phob gwlad yn derbyn canran wahanol a sefydlog o'r Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir. Mae'r ganran sefydlog hon yn seiliedig ar amryw o ffactorau gan gynnwys swm dalfeydd hanesyddol rhwng 1973 a 1978.

Mae'r gyfran sefydlogrwydd cymharol wedi aros yn gyson dros amser, er gwaethaf newid mewn patrymau pysgota, galw gan ddefnyddwyr a dosbarthiadau stoc (e.e. dosbarthiad mwy gogleddol oherwydd cynhesu a achosir gan yr hinsawdd).

Gellir gwneud cais am addasiadau i ddyraniadau'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon drwy ddarpariaeth **'Dewisiadau'r Hâg'** pan fydd cwotâu ar gyfer rhai stociau yn

disgyn yn is na lefelau sbarduno. Gall hyn ddarparu cyfleoedd pysgota ychwanegol i'r Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon ar draul Aelod-wladwriaethau eraill.

Yn **ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru ar bolisïau morol a physgodfeydd ar gyfer Cymru ar ôl ar Brexit** (Brexit a'n Moroedd) trafododd Llywodraeth Cymru ddewis arall yn lle sefydlogrwydd cymharol:

> Mae cysylltu stociau â pharth ... yn golygu bod modd ystyried yr adnoddau pysgodfeydd sydd ar gael ym mharth pob gwladwriaeth arfordirol. Oherwydd newidiadau i batrymau pysgota a lleoliadau stociau ers sefydlu'r drefn sefydlogrwydd cymharol (mae llawer o stociau wedi bod yn symud i'r gogledd), nid yw cyfrannau hanesyddol a bennwyd o dan y drefn sefydlogrwydd cymharol yn adlewyrchu lle mae'r stociau i'w gweld ar hyn o bryd. Gallai cysylltu stociau â pharth fod yn fodd i wneud hynny, gan ddibynnu ar ansawdd y dystiolaeth wyddonol.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi **nodi ei hymagwedd** at berthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, gan nodi:

> The UK will no longer accept the 'relative stability' mechanism for sharing fishing quotas, which is outdated, based on historical fishing activity from the 1970s. This means that future fishing opportunities should be based on the principle of zonal attachment, which better reflects where the fish live, and is the basis for the EU's fisheries agreement with Norway.

## 9.3. Dyrannu cwotâu domestig o dan Goncordat Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig

Er bod yr Undeb Ewropeaidd yn pennu lefel y dalfeydd ar gyfer stociau cwota bob blwyddyn, y Deyrnas Unedig sy'n penderfynu sut i ddyrannu'r cwota yn y Deyrnas Unedig. Rhennir cyfran y Deyrnas Unedig o'r TAC rhwng pedair Gweinyddiaeth Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig yn unol â **Choncordat Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig.** Mae'r rhaniad hwn yn seiliedig ar fformiwla hanesyddol.

**Cytunir ar** ganran cwota'r Deyrnas Unedig mae Cymru yn ei derbyn yn flynyddol, a chyhoeddir y manylion hynny. Mae Llywodraeth Cymru **yn disgrifio** ei phroses o ddyrannu ei chyfran o'r cwota i longau Cymru fel a ganlyn:

> Rydym yn dosrannu cwota o fewn diwydiant pysgota'r DU gan ddefnyddio unedau dyrannu cwotâu sefydlog. Mae'r dyraniad hwn:
>
> yn berthnasol i bob cwch
>
> - yn caniatáu i'r daliwr ddal ei gyfran o'r cwota ar gyfer stoc pysgota

- yn cael ei roi i gychod sy'n fwy na 10 metr yn unig
- yn cydymffurfio ag amryfal addasiadau a wneir gan y Gweinyddiaethau Pysgodfeydd

Ni allwn bennu'r cwota o flwyddyn i flwyddyn oherwydd mae'n dibynnu ar:

- swm y cwota a ddyrennir i'r DU ar gyfer y flwyddyn honno
- unrhyw addasiadau a wneir gan y Weinyddiaeth Pysgodfeydd i sicrhau cynaliadwyedd stociau.

Ar ôl dyrannu cwota, mae swm yn weddill. Dyma'r swm y gall cychod dan 10 metr ei bysgota. Eto, caiff y swm hwn ei rannu rhwng pedair Gweinyddiaeth Pysgodfeydd y DU, fel y nodir yng Nghoncordat Pysgodfeydd y DU 2012.

Yn Rhagair y Gweinidog i ymgynghoriad **Brexit a'n Moroedd,** dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, (y Gweinidog) "Nid yw pysgotwyr Cymru yn cael cyfran deg o gyfleoedd pysgota… Wrth inni adael yr UE, bydd Llywodraeth Cymru yn dadlau o blaid cael cyfran fwy o gyfleoedd pysgota".

Nodir hefyd yn y ddogfen ymgynghori:

> O droi cefn ar y drefn sefydlogrwydd cymharol ar y lefel ryngwladol, byddai fflyd Cymru yn cael ychydig o gyfleoedd pysgota ychwanegol. Fodd bynnag, yr unig ffordd o sicrhau cyfran decach i fflyd Cymru fyddai newid sut y mae cwotâu'n cael eu rhannu rhwng gweinyddiaethau pysgodfeydd y DU. Polisi Llywodraeth Cymru yw y dylai unrhyw bysgod ychwanegol a fydd yn ganlyniad i'r trafodaethau rhwng y gwladwriaethau arfordirol gael eu brigdorri a'u defnyddio i ddileu unrhyw anghyfartaledd hanesyddol rhwng sectorau gwahanol o'r fflyd. Dylai hynny, yn ei dro, fod o fudd i gymunedau arfordirol Cymru.

Mae Tabl 1 yn cyflwyno data o **adroddiad** gan **Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.** Paratôdd yr awdur gyfrifiadau, yn seiliedig ar ddata o adroddiad gan y **Sefydliad Rheoli Morol (2017),** i ddangos faint o rywogaethau cwota sy'n cael eu dal gan longau o Gymru yn nyfroedd gweinyddiaethau eraill y Deyrnas Unedig, yn ogystal â faint o bysgota sy'n digwydd gan gychod eraill y Deyrnas Unedig yn nyfroedd Cymru.

Tabl 1: Glaniadau rhywogaethau cwota yn y Deyrnas Unedig o ddyfroedd Cymru a glaniadau Cymru o Barth Economaidd Unigryw'r Deyrnas Unedig

(Cyfieithiad o'r tabl gwreiddiol gan **Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru)**

| Cenedligrwydd | Glaniadau gan longau o Gymru sy'n pysgota y tu allan i ddyfroedd Cymru ond o fewn Parth Economaidd Unigryw'r Deyrnas Unedig (tunnell) | Glaniadau gan longau eraill o'r Deyrnas Unedig sy'n pysgota o fewn dyfroedd Cymru (tunnell) | Gwahaniaeth (tunnell) |
|---|---|---|---|
| Yr Alban | 3.00 | 57.40 | 54.40 |
| Lloegr | 111.15 | 165.24 | 54.09 |
| Guernsey | 3.33 | 0.00 | -3.33 |
| Jersey | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Gogledd Iwerddon | 0.02 | 1,652.62 | 1,652.60 |
| Ynys Manaw | 0.06 | 0.00 | -0.06 |
| Cyfanswm | 117.56 | 1,875.27 | 1,757.70 |

Nid yw Bil 2019-21 yn diwygio'r **Concordat Pysgodfeydd** (na dulliau dyrannu cwota o fewn y Deyrnas Unedig). Mewn **gohebiaeth** (PDF 374 KB) gyda'r **Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig** ynghylch **Bil Pysgodfeydd 2017-19** (y Bil blaenorol), dywedodd y Gweinidog (ychwanegwyd y pwyslais):

> Rwy'n derbyn yr angen i ailgydbwyso'r annhegwch sylfaenol wrth ddyrannu cwota a byddaf yn pwyso am hyn. Fodd bynnag, **nid** Bil Pysgodfeydd y DU yw'r lle priodol i unioni'r mater hwn.
>
> Caiff cwotâu eu rheoli drwy fecanweithiau gweinyddol o dan y fframwaith deddfwriaethol eang a nodir yn y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Nid oes angen darpariaethau deddfwriaethol arnom er mwyn gallu ail-gydbwyso'r cwota.

Mae ***Bil 2017-19*** yn debyg i Fil 2019-21, ond cwympodd pan gafodd Senedd y Deyrnas Unedig ei haddoedi cyn Etholiad Cyffredinol Rhagfyr 2019.

Archwilir rheoli cwotâu ymhellach ym mhapur briffio Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil 2019-21.

## 9.4. Rhwymedigaeth lanio

Mae **rhwymedigaeth lanio'r** CFP (a elwir hefyd yn 'waharddiad gwaredu') yn ei gwneud yn ofynnol i ddalfeydd o bob rhywogaeth sy'n ddarostyngedig i derfynau TAC (neu isafswm maint glanio ym Môr y Canoldir) gael eu glanio a'u cyfrif. Yna mae'r dalfeydd hyn yn cyfrif yn erbyn cwota'r pysgotwr.

Mae rhwymedigaethau'n wahanol ar gyfer pysgodfeydd **pelagig** (e.e. swtan glas, pysgodyn baedd, penwaig, marchfacrell, macrell, swtan Norwy, llymrïaid a chorbennog) a **gwely'r môr** (e.e. penfras, hadog, pysgodyn cegddu, cimwch Norwy, lleden goch, lleden chwithig a gwyniad môr) rhwng rhanbarthau (cyflwynwyd y rhwymedigaeth lanio ar sail ranbarthol). Yn y Deyrnas Unedig, ceir rhanbarth Môr y Gogledd a Dyfroedd Gogledd Orllewin Lloegr, **sy'n cynnwys holl ddyfroedd Cymru**. O 2014 ymlaen, mabwysiadodd y Comisiwn Ewropeaidd **sawl cynllun gwaredu rhanbarthol** i baratoi ar gyfer gweithredu'r rhwymedigaeth lanio, a gyflwynwyd yn raddol yn ystod 2015-2019.

Mae'r rhwymedigaeth lanio yn parhau i fod yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig o dan **Erthygl 15** o ***Reoliadau'r CFP.*** Mae 'amcan sgil-ddalfa' hefyd wedi ei gynnwys yng nghymal 1 is-adran 6 o Fil 2019-21. Mae'r amcan hwn yn ymwneud â glaniadau ond nid yw'n adlewyrchu'r rhwymedigaeth lanio. Yr amcan sgil-ddalfa yw:

> (a) the catching of fish that are below minimum conservation reference size, and other bycatch, is avoided or reduced,
>
> (b) catches are recorded and accounted for, and
>
> (c) bycatch that is fish is landed, but only where this is appropriate and (in particular) does not create an incentive to catch fish that are below minimum conservation reference size.

Mae cymal 48 yn diffinio sgil-ddalfa fel:

> (a) fish that are caught in the course of fishing for fish of a different description, or
>
> (b) animals other than fish that are caught in the course of fishing.

Mae'r amcan sgil-ddalfa yn disodli amcan gwaredu a oedd ym Mil 2017-19:

> The "discards objective" is to gradually eliminate discards, on a case-by-case
> basis, by—
>
> (a) avoiding and reducing, as far as possible, unwanted catches, and
>
> (b) gradually ensuring that catches are landed.

Er bod yr amcan gwaredu yn ymwneud â'r holl rywogaethau sy'n cael eu dal, gan gynnwys rhywogaethau pysgod wedi eu targedu, nid yw'n glir sut bydd yr amcan sgil-ddalfa, yn enwedig cymal 1 is-adran 6(c), yn cael ei ddehongli ochr yn ochr â'r diffiniad o sgil-ddalfa dan gymal 48 (sy'n ymwneud yn unig â physgod sy'n cael eu dal wrth bysgota am bysgod dan ddisgrifiad gwahanol). Nid yw'n glir a yw'r term 'disgrifiad gwahanol' yn cynnwys pysgod o'r un rhywogaeth ond â nodweddion gwahanol (er enghraifft, pysgod rhy fach).

Er bod yr amcan gwaredu yn cynnwys darpariaeth i sicrhau'n raddol bod yr holl ddalfeydd yn cael eu glanio, **mae'r amcan sgil-ddalfa yn nodi mai dim ond dalfeydd a ddiffinnir fel 'sgil-ddalfa' y dylid eu glanio a dim ond lle bo hynny'n briodol**. Mae'n ymddangos felly na chaniateir i bysgod sydd wedi eu targedu'n benodol ond sy'n fwy na'r cwota a ddelir ar gyfer y stoc hwnnw gael eu dal o fewn yr amcan sgil-ddalfa.

Mewn **ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** (PDF, 775KB), dywedodd y Gweinidog mai ar gyfer "dargadw'r rhwymedigaeth lanio" y bydd "angen glanio unrhyw symiau o rywogaethau targed sydd y tu hwnt i'r terfynau cwota awdurdodedig ar gyfer cwch". Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog hefyd "ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu [cyfnod pontio Brexit], byddwn yn gallu datblygu polisi neu bolisïau ar waredu pysgod sy'n gweddu orau i'n diwydiannau ac sy'n diogelu'r amgylchedd morol".

## 9.5. Uchafswm Cynnyrch Cynaliadwy

Mae **Erthygl 2 (2)** o'r CFP yn cyflwyno dyletswydd mewn perthynas â gorbysgota (ychwanegwyd y pwyslais):

> The CFP shall apply the precautionary approach to fisheries management, and shall aim to ensure that exploitation of living marine biological resources restores and maintains populations of harvested species above levels which can produce the maximum sustainable yield.

Mae darpariaeth debyg i hyn wedi ei chynnwys yn amcan rhagofalus Bil 2019-21. Fodd bynnag, amcan yn hytrach na dyletswydd yw'r ddarpariaeth ym Mil 2019-21:

> The "precautionary objective" is that—
>
> (a) the precautionary approach to fisheries management is applied, and
>
> (b) exploitation of marine stocks restores and maintains populations of harvested species above biomass levels capable of producing maximum sustainable yield.

Er nad yw Bil 2019-21 yn cynnwys dyletswydd i gyflawni cyfradd manteisio Uchafswm y Cynnyrch Cynaliadwy, mae dyletswydd bellach wedi ei chynnwys yn ail baragraff Erthygl 2(2) o'r CFP (ychwanegwyd y pwyslais):

> In order to reach the objective of progressively restoring and maintaining populations of fish stocks above biomass levels capable of producing maximum sustainable yield, the maximum sustainable yield exploitation rate shall be achieved by 2015 where possible and, on a progressive, incremental basis at the latest by 2020 for all stocks.

# 10. Pa gyllid sydd ar gael o dan y CFP?

## 10.1. Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop

Ategir y gwaith o gyflwyno amcanion y CFP gan **Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF),** gyda €6.4 biliwn wedi ei ddyrannu ar gyfer 2014-2020. Ar gyfer y cyfnod hwnnw, mae'r Gronfa'n dyrannu **€243 miliwn i'r Deyrnas Unedig** (tua £190 miliwn), gyda €19.7 miliwn o hynny i Gymru.

I gael gafael ar arian Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, mae **Rheoliad EMFF (Rheoliad (UE) Rhif 508/2014)** yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau lunio **rhaglen weithredol,** i nodi sut bydd cyllid yn cael ei ddefnyddio.

Diffinnir **Amcanion Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop y Deyrnas Unedig** (PDF 111 KB) o dan bedwar prif nod polisi:

- adapting the fisheries sector to the reformed CFP requirements – focused on the transition to sustainably managed and discard-free fisheries;
- fostering growth potential across fisheries, aquaculture and processing supply chains - through support for innovation, onshore and offshore investments in infrastructure;
- supporting increased economic, environmental and social sustainability – through efficient use of natural resources, support policies that attract and maintain people in coastal areas, improve local governance etc; and
- fulfilling enforcement and data collection obligations – by developing IT tools and technologies to support control and enforcement, improving traceability of fisheries products, adapting data collection to respond to the new requirements of the reformed CFP.

Ar gyfer cyllideb hirdymor nesaf yr Undeb Ewropeaidd rhwng 2021 a 2027, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi **awgrymu €6.14 biliwn** o dan gronfa symlach, fwy hyblyg ar gyfer pysgodfeydd Ewrop a'r economi forwrol.

### Cyllid y Deyrnas Unedig

O ran Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, nodir yn **Brexit a'n Moroedd**:

> Mae angen rhaglen i olynu'r EMFF a bwriedir cynnal ymgynghoriad ar wahân i edrych ar gynigion posibl. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r fethodoleg cyllido ar gyfer y rhaglen a fydd

> yn olynu'r EMFF gydnabod angen a chyfleoedd, ac na ddylai fod yn seiliedig ar nifer y cychod sy'n bodoli ar hyn o bryd nac ar faint o bysgod sy'n cael eu glanio nac ar feini prawf tebyg a allai olygu y bydd Cymru o dan anfantais. Mae trafodaethau'n parhau ac mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â gweinyddiaethau eraill y DU i ystyried yr opsiynau.

Mae cymal 33 o Fil 2019-21 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, i roi cymorth ariannol, neu i drefnu bod cymorth o'r fath yn cael ei roi, i unrhyw un at ddibenion penodol. Mae atodlen 6 yn darparu pwerau cyfatebol ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig, gan gynnwys Gweinidogion Cymru. Mae paragraff 4 yn diddymu pwerau i'r Gweinyddiaethau Pysgodfeydd ddarparu cymorth ariannol o dan ***Ddeddf Pysgodfeydd 1981***.

Nodir yn atodlen 6, cymal 2(1) y dibenion y caiff Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ariannol ar eu cyfer o dan yr atodlen hon. **Mae'r rhestr o ddibenion wedi ei hehangu ers Bil 2017-19.**

## 11. A yw masnach yn dod o dan Fil 2019-21?

Fel yr amlygwyd, mae polisi'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer rheoli'r farchnad mewn cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaeth yn un o bileri'r CFP. Nid yw Bil 2019-21 yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â masnach. Bydd y rhain yn fater i'w drafod rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi llunio **dogfen** sy'n nodi ei hagwedd tuag at berthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, gan gynnwys mewn perthynas â physgodfeydd. Yn **adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn 2018 ar effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru**, amlygwyd pwysigrwydd masnach gyda'r Undeb Ewropeaidd i sector pysgota Cymru.

# 12. Ffynonellau Allweddol

## 12.1. Llywodraeth Cymru

- **Tudalen lanio y môr a physgodfeydd;**
- **Bioamrywiaeth a chadwraeth forol;**
- **Bwletin Pysgodfeydd a Brexit;**
- **Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop; a'r**
- **Rhwymedigaeth lanio.**

## 12.2. Y Senedd

- **Trafod Cydsyniad Deddfwriaethol** ar gyfer Bil 2019-21;
- **Trafod Cydsyniad Deddfwriaethol** ar gyfer Bil 2017-19;
- **Ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i Effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru;**

## 12.3. Ymchwil y Senedd

- **Bil Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig 2017-19: Crynodeb o'r Bil;**
- **Beth mae Cytundeb Ymadael yr Undeb Ewropeaidd yn ei olygu i Gymru?;**
- **Bil Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig a Chymru;**
- **Crynodeb o gynigion Papur Gwyn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar berthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol;**
- **Y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y Dyfodol: Pysgodfeydd**; a
- **Brexit a Physgodfeydd Cymru.**

## 12.4. Llywodraeth y Deyrnas Unedig

- **Canllawiau ar** y sector pysgodfeydd a pharatoi ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd;
- **Pysgota masnachol a physgodfeydd** gan gynnwys cyllid, rheoliadau a thrwyddedu cychod;
- **Pysgodfeydd morol;** ac
- **Ymagwedd y Deyrnas Unedig tuag at y berthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.**

## 12.5. Y Comisiwn Ewropeaidd

- **Tudalen lanio pysgodfeydd; a**
- **Canllaw esboniadol** i'r CFP, gan gynnwys dogfennau swyddogol perthnasol a phosteri gwybodaeth.

## 12.6. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin

- **Pysgodfeydd a Brexit;**
- **Rheoli pysgodfeydd yn y Deyrnas Unedig;**
- **Bil Pysgodfeydd 2017-19;**
- **Brexit: beth nesaf i bysgodfeydd y Deyrnas Unedig?; a**
- **Camau nesaf Brexit: pysgodfeydd**

## 12.7. Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi

- **Bil Pysgodfeydd 2019-21: Papur Briffio ar gyfer Camau Tŷ'r Arglwyddi; ac**
- **Adroddiadau Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd: Rhwymedigaeth lanio Pysgodfeydd yr Undeb Ewropeaidd**

## 12.8. Senedd y Deyrnas Unedig

- **Bil Pysgodfeydd 2019-21;**
- **Bil Pysgodfeydd 2017-19;**
- **Ymchwiliad Is-bwyllgor Ynni a'r Amgylchedd yr Undeb Ewropeaidd i fynediad at bysgodfeydd y Deyrnas Unedig ar ôl Brexit; a**
- **Gwaith craffu Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar Ymchwiliad y Bil Pysgodfeydd.**

## 12.9. Ffynonellau eraill

- **Tudalen Institute for Government ar** y CFP; a
- **Tudalen Cyfraith Cymru** ar ddatganoli pysgodfeydd.